**Lee Waters AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd**
**Deputy Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MA/LW/3533/21

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd
Pwyllgor Newid Hinsawdd, Yr Amgylchedd a Seilwaith

SeneddClimate@senedd.wales

19 Tachwedd 2021

Annwyl Llŷr,

Diolch am adroddiad gwrandawiad cyn penodi Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith gyda'r ymgeisydd a ffefrir gennyf ar gyfer Cadeirydd Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru (NICW). Rwy'n falch eich bod yn gweld Dr Clubb yn addas ar gyfer y rôl.

Rwyf wedi nodi'r materion a godwyd yn yr adroddiad a hoffwn eich sicrhau ar nifer o bwyntiau. Penderfynais wneud penodiad uniongyrchol, er mwyn sicrhau bod Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru yn gallu gwneud cyfraniad amserol i'r camau y mae angen i Gymru eu cymryd i fynd i'r afael â newid hinsawdd. Fodd bynnag, gofynnais am eich mewnbwn cyn cadarnhau penodiad Dr Clubb oherwydd y gallai unrhyw amheuon a all fod gennych ynghylch gallu Dr Clubb i ymgymryd â'r rôl fod â goblygiadau o ran enw da Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru. Roedd Dr Clubb, fel darpar gadeirydd, wedi ymgysylltu ag aelodau o'r Comisiwn a'i ysgrifenyddiaeth, gyda'm cytundeb i sicrhau ei fod yn deall y rôl ac y byddai'n gallu cyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd.

O ran ymgeiswyr y gellir eu penodi o ymgyrch 2019, nid oeddwn yn rhan o'r ymgyrch recriwtio, ond fe'm hysbyswyd na phenodwyd unrhyw ymgeiswyr oherwydd newid ffocws, ar ddiwedd 2019, i flaenoriaethu ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd. Gan nad oedd hyn wedi bod yn rhan o'r ymgyrch wreiddiol, y penderfyniad oedd ail-redeg yr ymgyrch yn gynnar yn 2020, ond gohiriwyd hyn oherwydd dechrau pandemig COVID-19.

Yn olaf, croesawaf eich ymrwymiad i wahodd y cadeirydd yn flynyddol i archwilio cynnydd a nodaf eich sylwadau am statws Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru. Mae cyfyngiadau

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

sylweddol o ran darparu corff cyhoeddus annibynnol yn yr amgylchedd economaidd presennol. Mae'r cyfyngiadau hyn yn ymwneud yn benodol â threfniadau a chostau llywodraethu.  Fodd bynnag, mewn egwyddor, gallai Llywodraeth Cymru fod yn agored i ystyried yr angen am gorff sy'n canolbwyntio mwy ar gyflawni yn y dyfodol ac i adolygu statws a chylch gwaith y comisiwn seilwaith.

Byddaf yn ysgrifennu at Dr Clubb i gynnig y rôl iddo'n ffurfiol a gobeithiaf wneud datganiad ar hyn cyn bo hir.

Yn gywir



**Lee Waters AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change